

BW16

Ymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well

Inquiry into Benefits in Wales: options for better delivery

Ymateb gan: Comisiynydd Pob Hyn Cymru

Response from: Older Peoples Commissioner

Ynghylch y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

1. Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ar ddatganoli posibl rhai budd-daliadau lles i Gymru. Bydd fy nhystiolaeth yn canolbwyntio ar y gwersi y gellir eu dysgu yn sgil datganoli rhai pwerau nawdd cymdeithasol i'r Alban a'r cyfleoedd a fyddai'n codi pe bai'r pwerau hyn yn cael eu datganoli i Gymru.
2. Fy rôl fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – rôl annibynnol, statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru – yw gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ac i eiriol a chodi llais ar eu rhan er mwyn iddynt gael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a sicrhau bod y rhai hynny a all fod yn agored i niwed neu mewn perygl o niwed yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu gwarchod.
3. Mae hawl i nawdd cymdeithasol yn faes polisi cyhoeddus sydd angen mwy o sylw yng Nghymru, ac rwyf yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor, yn enwedig o ystyried y dull gwahanol sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth yr Alban ers cael rheolaeth dros fudd-daliadau lles penodol ers 2016. Mae llawer o'r hawliadau ariannol hyn, gan gynnwys Taliad Annibyniaeth Personol/Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr a Thaliadau Tanwydd Gaeaf, yn cael eu hawlio gan bobl hŷn ac mi allant gael effaith bwysig ar eu gallu i gael dau ben llinyn ynghyd.
4. Roedd Deddf yr Alban 2016 yn rhoi rheolaeth dros 11 hawliad ariannol a oedd yn cael eu datganoli i'r Alban. Ers hynny, mae Senedd yr Alban wedi pasio Deddf Nawdd Cymdeithasol (yr Alban) 2018, a oedd yn creu fersiynau o'r hawliadau hyn ar gyfer yr Alban. Ar ddechrau'r broses hon, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad manwl a oedd yn cynnwys llunwyr polisi, derbynwyr hawliadau, rhai oedd â phrofiad uniongyrchol o'r system, a sefydliadau cymorth. Roedd yn edrych ar ddiffygion system gyfredol y DU hyd yma a chafwyd trafodaeth agored ar yr opsiynau i wella sut mae'r system nawdd cymdeithasol yn cael ei gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu ymarferiad tebyg i Gymru lle byddai ymgynghoriad cyhoeddus ystyrlon â rhanddeiliaid yn

sail i ffordd Gymreig o greu dull gwell o gyflawni nawdd cymdeithasol.

5. Defnyddiodd Llywodraeth yr Alban yr ymgynghoriad hwn i ddatblygu ei gweledigaeth o sut y byddai'r system nawdd cymdeithasol yn gweithredu yn yr Alban, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Our Charter'. Un o elfennau pwysicaf hyn yw sut mae Llywodraeth yr Alban yn mabwysiadu ymagwedd wahanol iawn tuag at y system nawdd cymdeithasol a thaliadau budd-dal, gan droi cefn ar ymdeimlad o gywilydd a baich a chreu system sy'n seiliedig ar urddas, parch a hawliau dynol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y datganiad o weledigaeth 'Our Charter':¹

'Social Security is a human right – an investment in ourselves and each other. It is a public service that any of us could need at any time. So 'Our Charter' belongs to all of us'

6. Pe bai elfennau o nawdd cymdeithasol yn cael eu datganoli i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu datganiad o weledigaeth y gellid ei ategu hefyd gan set o egwyddorion sy'n sefydlu dull ar gyfer system nawdd cymdeithasol i Gymru, a ddylai gynnwys:

- hawl dynol sylfaenol
- buddsoddiad ym mhobl Cymru
- urddas a pharch fel elfen ganolog ohoni
- cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pobl yn cael eu hawliau llawn

7. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych sut y gellid newid natur wrthwynebus y system bresennol a sut y gellid mynd i'r afael â'r stigma cysylltiedig mae pobl yn ei deimlo sy'n rhan o'r system 'nawdd cymdeithasol' bresennol.

8. Ar hyn o bryd, mae'r defnydd o derminoleg negyddol a'r drafodaeth o amgylch nawdd cymdeithasol, yn ffocysu ar 'nawdd' a 'budd-dal', wedi cyfrannu at y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau ac mae wedi bod yn ffactor sydd wedi atal rhai pobl hŷn rhag hawlio'r hyn sy'n ddyledus

iddynt. Byddai datganoli yn galluogi Cymru i ail-fframio y cymorth hwn fel “hawliadau” ac i hyrwyddo agwedd bositif tuag at nawdd cymdeithasol sydd yn atgyfnerthu hawl unigolyn i gael cymorth.

9. Un o brif elfennau ymagwedd Llywodraeth yr Alban, ac un yr hoffwn ei gweld yng Nghymru, yw'r ddyletswydd ar Weinidogion i annog pobl i hawlio'r hyn mae ganddynt hawl iddo. Mae hyn yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud yn awr, boed pwerau wedi'u datganoli neu beidio, gan ei fod yn dod ag incwm pwysig i unigolion ac i economïau lleol. Amcangyfrifir fod hyd at £170m o Gredydau Pensiwn heb eu hawlio yng Nghymru bob blwyddyn, sy'n golygu bod llawer o bobl hŷn yn colli'r cymorth ariannol sydd ei angen arnynt ac y mae ganddynt hawl iddo, ac y byddai llawer ohono'n cael ei wario mewn cymunedau lleol.² Mae llawer o lwfansau eraill, fel Lwfans Gofalwr a Lwfans Gweini, hefyd heb eu hawlio gan rai sy'n gymwys i'w cael.
10. Byddai datganoli'r pwerau nawdd cymdeithasol hyn i Gymru hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella cymhwysedd neu lefel yr hawliadau hyn. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi gwella lefel y cymorth a ddarperir i ofalwyr er mwyn iddo fod ar yr un lefel â'r cymorth a ddarperir i geiswyr gwaith³ ac mae wedi gwneud newidiadau i'r cymorth a roddir tuag at gost angladdau.⁴ Yn ychwanegol at hyn, byddai Llywodraeth Cymru'n gallu creu mathau newydd o gymorth a allai helpu i hybu cydnerthedd ariannol pobl hŷn a'u helpu i heneiddio'n dda.
11. Yn ogystal â'r dadleuon polisi dros ddatganoli pwerau nawdd cymdeithasol, mae achos ariannol sy'n werth ei ystyried hefyd. Yr wythnos diwethaf cyhoeddais ddatganiad yn croesawu adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru 'Devolving Welfare – How well would Wales fare?' a oedd yn cynnig tystiolaeth o blaid y ddadl dros ddatganoli rheolaeth dros nifer o hawliadau ariannol i Gymru.⁵

12. Casgliad yr adroddiad oedd, yn amodol ar negodiadau a chytundebau llwyddiannus ar setliadau ariannol gyda Llywodraeth y DU, y gallai Cymru gyflawni budd economaidd sylweddol yn sgil y trosglwyddo, yn enwedig os byddai datganoli'n cael ei drefnu ar yr un telerau â'r hyn y cytunwyd arno ar gyfer yr Alban.
13. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd, gan mai lefel y taliadau yn y flwyddyn cyn datganoli fyddai'n cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin, byddai'n synhwyrol i Lywodraeth Cymru i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio cyn i'r pwerau gael eu datganoli. Gallai cwmpas yr ymgyrch hon fod yn eang a chynnwys budd-daliadau eraill, fel Credydau Pensiwn, nad ydynt yn cael eu hystyried ar gyfer datganoli.
14. Yn derfynol, r'wyn credu bod hwn yn faes trafod cynyddol bwysig yng Nghymru ac edrychaf ymlaen at ddilyn hynt Ymchwiliad y Pwyllgor. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â George Jones, fy mhrif swyddog Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant, ar 03442 640 670 neu drwy e-bostio george.jones@olderpeoplewales.com.

¹ Social Security Scotland (2019) Our Charter: What you can expect from the Scottish Government and Social Security Scotland. Ar gael yn: <https://www.socialsecurity.gov.scot/about-us/our-charter> [Cyrchwyd 10 Ebrill 2019]

² Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar doriad yng nghyfanswm y boblogaeth (4.84%) o ffigurau Prydain Fawr a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael yn: <https://bit.ly/2K9r0tO> [Cyrchwyd 20 Chwefror 2019]

³ Llywodraeth yr Alban (2018) Extra financial support for carers. Ar gael yn: <https://news.gov.scot/news/extra-financial-support-for-carers> [Cyrchwyd 11 Ebrill 2019]

⁴ Llywodraeth yr Alban (2019) Funeral Expense Assistance. Ar gael yn: <https://www.gov.scot/news/funeral-expense-assistance/> [Cyrchwyd 11 Ebrill 2019]

⁵ Ifan, G. a Siôn, C. (2019) Devolving Welfare: How well would Wales fare? Dadansoddi Cyllid Cymru. Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: https://www.cardiff.ac.uk/data/assets/pdf_file/0010/1476352/devolving_welfare_final2.pdf [Cyrchwyd 11 Ebrill 2019]